COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 19 RHAGFYR 2018 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal |
| MC Voisey | LM Walters | KJ Watts | CA Webster |
| DBF White | PJ White | A Williams | AJ Williams |
| HM Williams | JE Williams | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, DG Howells, DG Owen, JC Radcliffe, B Sedgebeer a/ac RME Stirman

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| David Holland | Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |

251. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd T. Beedle fuddiant personol yn eitem 11 o'r Agenda, yr adroddiad o dan y teitl Rhaglen Gyfalaf 2018-19 hyd at 2027-28 fel Cadeirydd Ysgol Gynradd Cwmfelin.

Datganodd y Cynghorydd Alex Williams fuddiant personol yn eitem 9 o'r Agenda fel Ysgrifennydd Clwb Gweithwyr, Chwaraeon a Chymdeithasol Heol-y-Cyw.

Hefyd datganodd Mark Shephard a Sue Cooper fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 14 o'r Agenda, a gwnaethant adael y cyfarfod pan oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried.

252. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor, dyddiedig 21 Tachwedd 2018, fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol i Adroddiad yr Arweinydd:-

Rhif cofnodion 239, tudalen 8 o'r papurau, paragraff gwaelod, y llinell olaf ond un, newid y gair 'pensiynau' i "cyflog".

253. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y CANLYNOL:

Maer

Gwnaeth y Maer atgoffa'r aelodau am enwebiadau ar gyfer Gwobrau Blynyddol Dinasyddiaeth y Maer. Mae'r gwobrau'n agored i bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â grwpiau a busnesau lleol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gellir lawrlwytho ffurflen enwebiadau oddi yno. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw dydd Gwener 25 Ionawr, a bydd yr enillwyr yn cael eu hanrhydeddu mewn digwyddiad ym mis Mawrth.

Rydym wedi cael cyfnod Nadolig prysur ers cyfarfod diwethaf y cyngor; gyda'r Maer a'i Gydweddog yn cymryd rhan mewn 29 digwyddiad swyddogol, a oedd yn amrywiol a gwahanol ac yn bleserus iawn.

Roedd bendithio ysgol gynradd newydd Pencoed gan Esgob June yn ddigwyddiad arbennig iawn ar gyfer pawb a fynychodd ac roedd yn agoriad hyfryd ar gyfer yr adeilad newydd.

Cawsant fore gwych yn y gemau Olympage a gafodd eu cynnal yng Nghanolfan Bywyd Eglwys Bethlehem. Mae'r gemau'n rhoi cyfle i bobl hŷn gystadlu a bod yn egnïol mewn lleoliad sy'n hwyl gan wneud ffrindiau newydd mewn amgylchedd cymdeithasol.

Fel rhan o'i ymweliadau gwobrau busnes sy'n parhau cafodd y Maer/ei Gydweddog groeso gan Fords a chawsant eu tywys o amgylch y llinell injan draig newydd. Roedd hi'n hyfryd cyfarfod â staff rheoli a llinell gynhyrchu sy'n adeiladu dyfodol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Fords wedi bod yn masnachu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn agos at 40 mlynedd bellach.

Roeddent wedi mynychu nifer o gyngherddau ysgol ac wedi gweld peth talent ragorol a gwaith caled gan y disgyblion a'r staff ar draws y fwrdeistref sirol. Diolchodd i bawb a fu'n cymryd rhan yn y rhain.

Gan edrych ymlaen at y Flwyddyn Newydd, roedd llawer o ddigwyddiadau eisoes yn ei galendr.

Gorffennodd drwy ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd heddychlon i bawb a oedd yn bresennol.

Dirprwy Arweinydd

Efallai y bydd yr aelodau yn dymuno atgoffa eu hetholwyr y bydd preswylwyr yn gallu rhoi un bag gwastraff ychwanegol allan y Nadolig hwn, ac y bydd y bag 'du' traddodiadol yn addas at y diben hwn.

Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at y cyfyngiad gwastraff cyfredol o ddau fag i breswylwyr, ac mae'n berthnasol ar gyfer y casgliad sbwriel cyntaf ar ôl y Nadolig.

Bydd casgliadau ar Noswyl Nadolig ond ni fydd unrhyw gasgliadau ar Ddydd Nadolig na Gŵyl San Steffan. Bydd popeth yn cael ei gasglu ddau ddiwrnod yn hwyrach na'r arfer am weddill yr wythnos honno.

Bydd casgliadau yn cael eu gwneud yn ôl yr arfer ar Nos Galan, ond ni fydd unrhyw gasgliadau ar Ddydd Calan ac felly bydd popeth yn cael ei gasglu un diwrnod yn hwyrach hyd at ddydd Sadwrn 5 Ionawr. Bydd casgliadau yn dychwelyd i'r drefn arferol o ddydd Llun 7 Ionawr 2019 ymlaen.

Y brif eitem Nadolig na ellir ei hailgylchu yw papur lapio, plastig du, papur seloffen a pholystyren. Mae bron i bopeth arall yn gallu cael ei ailgylchu, gan gynnwys gwastraff bwyd. Gall cardiau Nadolig fynd allan gyda'ch cardfwrdd, a gall yr amlenni fynd allan gyda'ch sbwriel ailgylchu papur.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, gyda chyfradd ailgylchu o 68%, mai ni yw'r ail orau yng Nghymru. Gwnaeth ein preswylwyr ailgylchu digon o fwyd y llynedd i ddarparu pŵer ar gyfer ysgol gyfan am bedair blynedd. Mae hyn yn galonogol iawn, ac rwyf yn gobeithio y bydd yr aelodau yn annog cymunedau lleol i ailgylchu gymaint â phosibl y Nadolig hwn.

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd hefyd achub ar y cyfle i longyfarch 19 o reolwyr y cyngor sydd wedi ennill cymwysterau newydd fel rhan o Raglen Prentisiaeth Uwch a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethant dreulio 18 mis yn astudio ar gyfer y cymhwyster, ac fe'u gwobrwywyd â Diploma NVQ Edexcel a Diploma BTEC Pearson mewn rheoli ac arweinyddiaeth.

Mae naw swyddog arall ar hyn o bryd ar y cwrs tra bod ail grŵp o 19 wedi cofrestru'n ddiweddar ar y rhaglenni lefel pedwar a phump. Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn gwella set sgiliau cyffredinol ac ansawdd rheolwyr y cyngor, ac roedd yn falch o weld ei fod yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod y Cabinet wedi cymeradwyo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft ar gyfer 2019/20 – 2022/23 a chyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20. Mae hyn yn ddibynnol ar bentwr o gynigion ar gyfer gostyngiadau mewn gwasanaethau a thoriadau yr oeddem wedi gobeithio na fyddai'n rhaid i ni eu cynnig, ond mae gennym ddyletswydd statudol i ddarparu cyllideb gytbwys.

Ddechrau mis Rhagfyr, bydd yr holl aelodau wedi cael cyfle i fynychu sesiwn briffio ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a holi cwestiynau manylach. Bydd yr aelodau hefyd wedi cael cyfle i graffu ar y cynigion cyllideb ac roedd yn edrych ymlaen at glywed unrhyw sylwadau ac argymhellion.

Roedd yn falch o fynychu Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb yn rheolaidd ac roedd wedi tystio i'r ddadl a'r drafodaeth danbaid ar y cynigion ac eto roedd yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad oddi wrth Banel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb. Mae'r ymgynghoriad cyllideb wedi dod i ben bellach a ddoe derbyniodd y Cabinet adroddiad y bydd nawr yn ei ystyried.

Heddiw rydym yn disgwyl derbyn y setliad cyllideb terfynol gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen dadansoddi ei fanylion ond ni ddisgwylir unrhyw newidiadau o bwys. Pe bai'r awdurdod yn gallu lleihau effaith y gostyngiadau byddai'n gwneud hynny.

I gloi, bydd arolwg o ddarpariaeth TGCh yn cael ei anfon at yr holl aelodau cyn bo hir. Bwriad yr arolwg yw nodi sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth, defnydd a chymorth TGCh ar gyfer aelodau etholedig yn y dyfodol er mwyn galluogi effeithlonrwydd pellach.

Gofynnir yn garedig i'r aelodau gwblhau'r arolwg yn electronig erbyn 31 Ionawr 2019. Dywedodd y byddai canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno i Fforwm TGCh yr aelodau.

Aelod y Cabinet dros Gymunedau

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau y dylai unrhyw berchnogion cŵn sy'n dueddol o ymweld â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig gyda'u hanifeiliaid anwes, fod yn ofalus o amgylch ardal y pwll.

Yn ystod yr wythnosau diweddar mae llawer o algâu gwyrddlas wedi datblygu sydd i'w gweld yn fwyaf amlwg lle y mae wedi ymgasglu ar lan y dŵr. Er ei fod yn digwydd yn naturiol, gall gynhyrchu tocsinau sy'n niweidiol i bobl a chŵn, felly roedd yn annog pobl i gadw'n glir oddi wrtho.

Yn anffodus, roedd angen iddo gynghori'r aelodau am broblem arall yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, sef beiciau modur oddi ar y ffordd sy'n cael eu reidio yn anghyfreithlon ar y safle.

Yn ogystal â bod yn beryglus i ymwelwyr eraill sy'n defnyddio'r twyni, mae'r beiciau yn achosi difrod sylweddol i'r cynefinoedd twyni sy'n gartref i nifer o rywogaethau prin a warchodir megis tegeirian y fign galchog.

Mae'r cyngor yn cydweithio â Heddlu De Cymru i fynd i'r afael â'r broblem, ac mae ymwelwyr sy'n gweld unrhyw weithgarwch anghyfreithlon o'r fath yn cael eu hannog i adrodd am unrhyw beth maent yn ei weld i'r rhif 101.

Gan siarad am warchodfeydd natur, cafodd y cyfle yn ddiweddar i ymweld â'r hyn sydd efallai'n un o gyfrinachau mwyaf y fwrdeistref sirol.

Mae Craig y Parcau yn llwybr coetir hyfryd sy'n rhedeg ar hyd Afon Ogwr ar y lan sydd gyferbyn â Chaeau Newbridge.

Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r llwybrau yno, felly os oes unrhyw un yn dymuno mynd am dro ar ôl eu cinio Nadolig, mae Craig y Parcau'n cael ei argymell yn fawr.

Gall unigolion gael mynediad at Graig y Parcau o'r llwybr bryniog sy'n mynd i fyny tuag at Broadlands.

Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod ymgyrch y Rhuban Gwyn eleni wedi'i nodi gan nifer o ddigwyddiadau gwahanol.

Drwy gydol yr ymgyrch, mae preswylwyr wedi cael eu hatgoffa fod yr 'Assia Suite' yn y Swyddfeydd Dinesig yn barod ac yn gallu cynnig cymorth a chyngor cyfrinachol ar bob math o gam-drin domestig, yn ogystal â chynllunio diogelwch ar gyfer dioddefwyr a'u plant.

Ers i'r Suite gael ei sefydlu dair blynedd yn ôl, mae'r gwasanaeth wedi helpu cannoedd o bobl.

Diolchodd i'r aelodau am eu cymorth yn ystod ymgyrch y Rhuban Gwyn eleni, a diolchodd hefyd i bartneriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Heddlu De Cymru, Calan DVS, y Gwasanaeth Prawf, a Chymorth i Ddioddefwyr. Cydnabu hefyd ymdrechion y Cynghorydd David White, sy'n gwasanaethu fel ein Hyrwyddwr y Rhuban Gwyn, a diolchodd iddo am ei holl waith caled eto eleni.

Ar nodyn ychydig yn ysgafnach, gan ei fod yn Nadolig, roedd hi hefyd yn dymuno crybwyll rhywbeth a fydd yn helpu i sicrhau y gall preswylwyr fwynhau dathliadau'r Nadolig.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi paratoi cyngor am ddim sydd wedi'i gynllunio i atal teuluoedd rhag dioddef gwenwyn bwyd yn sgil twrci a chigoedd eraill sydd heb eu coginio ddigon dros y Nadolig.

Amcangyfrifir bod tua miliwn o achosion o wenwyn bwyd yn y DU bob blwyddyn, ac mae llawer o'r rhain yn digwydd yn ystod tymor y Nadolig.

Efallai y bydd yr aelodau'n dymuno rhoi gwybod i'w hetholwyr am y cyngor a'r arweiniad defnyddiol y gallant ddod o hyd iddo ar wefan food.gov.uk, neu ddilyn yr hashnod “season’s eating’s” ar Twitter.

Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei fod ef ynghyd â chydweithwyr yn y Cabinet, aelodau lleol a swyddogion y cyngor wedi cyfarfod yn ddiweddar â Carwyn Jones AC yn Village Farm, yn y Pîl, am y newyddion diweddaraf ar y Rhaglen Hwb Menter.

Fel y cynllun datblygu eiddo busnes mwyaf a wnaed erioed yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae hon yn fenter £5.5 miliwn gyffrous iawn a fydd yn creu mwy na 2,600 metr sgwâr o unedau busnes newydd, gan gynnwys blociau yn Village Farm, sy'n addas ar gyfer diwydiant ysgafn.

Roedd y buddsoddiad yn bosibl drwy bartneriaeth â Llywodraeth Cymru a thrwy gymorth gan gyllid rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd

Yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, bydd y cyfleusterau newydd yn cael eu creu yn Brocastle, a bydd y Ganolfan Arloesi ym Mharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei hailwampio i fod yn addas ar gyfer anghenion busnes modern.

Bydd tua 58 o fusnesau a 150 o swyddi yn cael eu cefnogi gan y fenter, sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllun i ddiwallu galw cynyddol am safle masnachol sy'n addas ar gyfer mentrau newydd neu lai o faint.

Wrth i nifer y cwmnïau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont gynyddu, bydd y fenter hon yn osgoi prinder unedau dechreuol priodol, ac mae'n newyddion ardderchog ar gyfer yr economi leol. Mae penseiri yn gweithio'n galed ar y cynlluniau ar gyfer y canolfannau menter newydd a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn 2019.

Efallai y bydd diddordeb gan yr aelodau hefyd i wybod am fenter ysgol newydd sy'n annog cenedlaethau'r dyfodol i fyw bywydau mwy gwyrdd, a mwy cynaliadwy.

Mae pyped mwnci gofod rhyngalaethol o'r enw Busta, sy'n fasgot ar gyfer y cynllun uchod, yn helpu i addysgu disgyblion ysgol gynradd ar sut y gall gwastraff bwyd gael ei drawsnewid yn drydan.

Mae'n targedu holl fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 2 ac mae'n darparu amrediad eang o adnoddau gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae'r cynllun yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag Ailgylchu dros Gymru, Wastebuster ac Eco-ysgolion, ac roedd yn sicr y byddai'r aelodau'n cytuno ei fod yn darparu rhai gwersi sy'n gynyddol bwysig.

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Mae menter newydd wedi'i lansio i roi mwy o gyfle i bobl sy'n agored i niwed, ac i'r sawl sy'n cael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol, i fynegi eu barn.

Wedi'i enwi'n ganolfan Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr, mae wedi'i sefydlu fel y man cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd angen eiriolwr i gyflwyno ei safbwyntiau a sefyll dros ei hawliau.

Mae llinell gymorth benodol wedi'i chreu, ac mae ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae sefydliadau amrywiol wedi dod at ei gilydd i ffurfio'r ganolfan gyda'r cyngor, gan gynnwys ProMo-Cymru, Mental Health Matters, Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr a Phrosiect Eiriolaeth y Llinyn Aur.

Efallai y bydd yr aelodau yn dymuno rhoi gwybod i'w hetholwyr am y gwasanaeth defnyddiol iawn hwn. Gellir cysylltu â chanolfan Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr ar 0808 801 0330, a gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion drwy ymweld â'r wefan, llaisadewispenybontarogwr.cymru.

Cydnabu a diolchodd hefyd i ddisgyblion o Ysgol Gyfun Brynteg, sydd unwaith eto wedi chwarae rôl sylweddol o ran sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn gallu cael Nadolig llawen.

Bob blwyddyn, mae'r disgyblion yn codi arian drwy ddigwyddiadau elusennol, ac yna maent yn ei wario yn prynu teganau y maent yn eu rhoi i'r Apêl Siôn Corn blynyddol a drefnir gan dimau Cymorth Cynnar a Diogelu'r cyngor.

Eleni, gwnaeth y disgyblion godi bron £5,000 a phrynwyd bagiau o anrhegion ar gyfer 157 o blant anghenus ac agored i niwed.

Teimlai fod hwn yn rhywbeth hyfryd i'w wneud, ac yn ymdrech ryfeddol. Yn ogystal â diolch i'r disgyblion, diolchodd hefyd i bawb a fu'n cefnogi'r Apêl Siôn Corn. Hebddo, mae yna blant a phobl ifanc na fyddai wedi cael unrhyw anrhegion Nadolig o gwbl fel arall. Da iawn bawb a fu'n chwarae rhan.

I gloi, diolchodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i Bridge FM a ddaeth â saith crât o anrhegion i mewn yr wythnos diwethaf, yn ogystal â swyddogion y cyngor a fu'n cefnogi'r parti Nadolig Gofalwyr Maeth yng Nghanolfan Gymunedol Bracla ddoe. Mynychodd y digwyddiad a chadarnhaodd pa mor ddymunol ydoedd i weld gofalwyr maeth a phobl ifanc mewn gofal yn agor yr anrhegion hyn ac yn mwynhau digwyddiad oedd mor bwysig.

Prif Weithredwr

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y cyngor nifer o ymgynghoriadau pwysig a oedd yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Roedd y rhain yn cwmpasu amrywiaeth o faterion megis cymhorthdal teithio, darpariaeth chweched dosbarth ôl-16 a chamau gorfodi ar gyfer delio â baw cŵn.

Yn y Flwyddyn Newydd, bydd ymgynghoriadau hefyd yn cael eu lansio ynglŷn â sut rydym yn delio ag eiddo gwag yn y fwrdeistref sirol, a pharciau, pafiliynau a chaeau chwarae.

Mae'r rhain i gyd yn faterion pwysig rydym eisiau i'r preswylwyr lleol gymryd rhan ynddynt, felly roedd yn gobeithio y bydd yr aelodau yn annog eu hetholwyr i wneud hynny.

Mae manylion llawn ar gael ar dudalen ymgynghoriadau gwefan y cyngor, a gall yr aelodau gael gafael ar fformatau gwahanol drwy gysylltu â'n tîm ymgynghori ac ymgysylltu.

Heb ddymuno achub y blaen ar y penderfyniad ffurfiol y gofynnir i'r cyngor ei wneud y prynhawn yma, roedd y Prif Weithredwr yn teimlo y byddai'r aelodau yn dymuno nodi y gwnaeth y Pwyllgor Penodiadau fynd yn ei flaen i benodi Prif Weithredwr dros dro a gwnaeth longyfarch Mr Mark Shephard ar y penodiad hwnnw.

Yng nghyfarfod blaenorol y cyngor gwnaeth yr Arweinydd esbonio'r bwriad i benodi Swyddog S151 dros dro am yr un cyfnod amser â'r Prif Weithredwr Dros Dro. Mewn gwirionedd ni wnaethom fwrw ati gyda'r penodiad hwnnw. Roedd yn falch o ddweud bod Gill Lewis y swyddog S1515 dros dro cyfredol wedi cytuno'n garedig i aros gyda ni ychydig yn hirach, er mwyn sicrhau parhad ac er mwyn cefnogi'r cyngor drwy'r broses gyllidebu.

Roedd y bwriad yn parhau i geisio dod o hyd i ddatrysiad parhaol yn y flwyddyn newydd ond roedd yr uchod yn golygu bod gan yr awdurdod fwy o barhad yn y rôl allweddol hon na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

254. I DDERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Gwnaeth yr Arweinydd adrodd mai heddiw oedd cyfarfod cyngor olaf Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac roedd yn siŵr y byddai'r holl gydweithwyr eisiau dymuno'n dda i Mr Darren Mepham yn ei rôl newydd fel Prif Weithredwr Coleg Barnet a Southgate yng ngogledd Llundain.

Ochr yn ochr ag aelodau, roedd Darren wedi darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer yr awdurdod am fwy na chwe blynedd ers iddo gael ei gyflogi gyntaf gan y cyngor yn 2012.

Mae'r cyfnod hwn wedi'i ddiffinio i raddau helaeth fel un o'r hinsoddau ariannol caletaf rydym wedi'i brofi erioed, ond gydag uwch-dîm rheoli cadarn a phrofiadol y tu cefn iddo, profodd Darren ei fod yn fwy na pharod i wynebu'r her yn uniongyrchol.

Boed drwy drefniadau cydweithredol gyda chynghorau cyfagos, neu yrru newid sefydliadol yn ei flaen ar raddfa fawr, roedd Darren wrth gwrs wedi goruchwylio amrediad eang o ddatblygiadau yn ystod ei gyfnod yma.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn ddiolchgar i Darren am y cymorth a'r cyngor doeth yr oedd wedi'i roi nid yn unig iddo ef, ond i'r holl aelodau, ac roedd yn gwybod y byddai'r un mor llwyddiannus yn ei rôl newydd.

Rydym hefyd wedi gweld yr Aelod Cynulliad dros yr Etholaeth ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn ildio’r awenau fel y Prif Weinidog ac roedd yr Arweinydd yn dymuno diolch yn gyhoeddus iddo. Fel Arweinydd yr wrthblaid, dywedodd yr Aelod Cynulliad dros y Ceidwadwyr, Paul Davies, yn ei deyrnged fod Carwyn wedi cyflawni ei ddyletswyddau gydag “ymroddiad a brwdfrydedd.”

Roedd yn sicr y byddai'r aelodau yn ymuno ag ef i ddymuno pob llwyddiant i'r Prif Weinidog newydd, Mark Drakeford. Croesawodd hefyd benodiad Gweinidog newydd

dros Lywodraeth Leol, Julie James AC ac roedd yn edrych ymlaen at ailosod y berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

Wrth i un drws gau, mae un arall yn agor, ac mae hynny'n bendant yn wir o ran rhaglen moderneiddio ysgolion barhaus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Wrth i'r flwyddyn dynnu tua'i therfyn, rydym hefyd yn ffarwelio ag Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw ac yn croesawu'r ysgol newydd sbon Ysgol Gymraeg Calon y Cymoedd.

Bydd yr ysgol yn cau ei drysau ar ei safle ym Mhontycymer am y tro olaf yr wythnos hon, a bydd yn dechrau 2019 ar ei safle newydd sbon gerllaw Ysgol Gynradd Betws.

Bydd unrhyw aelod sydd wedi cael y fraint o weld yr ysgol newydd eisoes yn gwybod beth y gall y disgyblion ei ddisgwyl. Cafodd ei adeiladu fel drych-ddelwedd o'i gymydog newydd, a agorodd ychydig fisoedd yn unig yn ôl.

Gwnaeth yr hen ysgol wasanaethu ei chymuned yn dda am nifer o flynyddoedd mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys fel Ysgol Ramadeg ac Ysgol Gyfun, ond roedd wedi cyrraedd diwedd ei hoes hir iawn.

Mae'r adeilad newydd sbon trawiadol wedi cael ei adeiladu fel rhan o'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Band A, ac mae'n cynnig cyfleusterau addysgol o'r radd flaenaf sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at agoriad swyddogol yr ysgol newydd, a'i gwylio'n datblygu'n sylfaen ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg yng nghymoedd Ogwr a Garw.

Ar ran y Cabinet a'r Cyngor, gwnaeth yr Arweinydd achub ar y cyfle i ddymuno Nadolig ymlaciol a phleserus i'r holl aelodau a swyddogion, a diolchodd iddynt am eu holl gymorth yn 2018, y gwyddai y byddai'n parhau wrth symud ymlaen tua'r dyfodol.

255. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**1. Cwestiwn gan y Cynghorydd Tim Thomas i'r Arweinydd**
A yw'r Arweinydd yn fodlon ar yr adnoddau sydd ar gael i aelodau Cyd-bwyllgor Craffu'r Fargen Ddinesig?

**Ymateb**
Cynigiodd y cyngor gynnal y cyd-bwyllgor craffu ar ran y deg partner. Mae gan yr awdurdod enw da yn genedlaethol am ein gwaith craffu, felly roedd y partneriaid eraill yn y Fargen Ddinesig yn hyderus y gallem arwain y gwaith hwn.

Rydym wedi amcangyfrif yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar yr awdurdod i gefnogi'r cyd-bwyllgor – yn bennaf o ran amser swyddogion cymorth democrataidd, ac mae hyn yn cael ei ariannu gan y Fargen Ddinesig. Gobeithir y gall y cyd-bwyllgor craffu fanteisio ar arbenigedd y corff atebol (Cyngor Sir Caerdydd) sydd eisoes yn darparu cymorth cyfreithiol, ariannol a democrataidd i'r pwyllgor rhanbarthol – rydym yn osgoi dyblu ymdrechion yn fwriadol.

Mae'r pwyllgor wedi cwrdd unwaith, a byddwn yn parhau i adolygu'r gofynion adnoddau dros amser. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod gwaith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei oruchwylio hefyd gan y canlynol:

Llywodraeth y DU

Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

Mae gan y sefydliadau hyn fuddiant a rôl mewn uniondeb, llywodraethu a gwerth am arian y bartneriaeth ac yn ei gallu i gyflawni.

Yn ogystal, mae cyfres o adolygiadau porth annibynnol hefyd wedi eu sefydlu a gomisiynwyd gan lywodraeth y DU. Bydd y rhain yn asesu'n fanylach pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn cyflawni canlyniadau a byddant, yn eu tro, yn pennu derbyniad parhaus taliadau graddol o'r Trysorlys.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**
Gan ystyried fod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn faes gwaith mor bwysig, sut ydym yn ei monitro wrth symud ymlaen, a sut y gall aelodau gymryd rhan benodol ynddi.

**Ymateb**
Mae ymweliad safle yng Nghasnewydd cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Caerdydd, felly mae adnoddau digonol yn cefnogi'r cynllun. Bydd pob aelod hefyd yn derbyn adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd i ddod, yn hytrach na gosod dolen i'r agenda ar wefan y cyngor. Os oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau ynghylch y Fargen Ddinesig, gellid rhannu'r rhain naill ai gyda fi, neu Gadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (e.e. Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf). Fel arall, gellid hefyd cysylltu â Chyfarwyddwr y Rhaglen at y diben hwn. Ychwanegodd fod Bargen Ddinesig Caerdydd yn agored ac yn dryloyw, yn yr un modd â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir. Roedd ganddi ei Chyd-bwyllgor ei hun hefyd a oedd yn craffu ar unrhyw waith a phrosiectau wrth fynd ymlaen. Pe bai unrhyw bryderon nad oedd gan y cynllun ddigon o adnoddau wrth iddo ddatblygu, byddai'r awdurdodau cyfranogol yn edrych ar hyn. Roedd adroddiadau monitro chwarterol yn gorfod cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun hwn. Roedd hefyd angen cyflawni'r targedau a osodwyd yn y cynllun busnes a oedd yn cefnogi'r Fargen Ddinesig. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi adolygu Bargen Ddinesig Caerdydd yn ystod y cyfnodau cynnar, a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu'n effeithiol. Ychwanegodd Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Caerdydd pe bai gan aelodau unrhyw bryderon penodol fel yr un a godwyd heddiw gan yr aelod perthnasol, byddai ef yn mynd i'r afael â'r rhain yn ôl y gofyn.

**2. Cwestiwn gan y Cynghorydd Sorrel Dendy i Aelod y Cabinet dros Gymunedau**
A yw First Cymru wedi dweud wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu roi hysbysiad o'r penderfyniad i ddileu eu gwasanaeth yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr?

**Ymateb**
Nid oes unrhyw arwydd gan First Cymru Busnes Cyf eu bod yn bwriadu dileu eu gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn hytrach, maent wedi bod yn gadarnhaol mewn cyfarfodydd diweddar ynghylch y ffaith bod ganddynt wasanaethau parhaus a gwell, o bosibl, wrth symud ymlaen o fewn Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Dendy i Aelod y Cabinet dros Gymunedau**
A oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynllun ar waith pe bai'r prif wasanaeth bws yn gadael heb fawr o rybudd, os o gwbl?

**Ymateb**
Caiff y gwasanaethau bysiau eu darparu'n bennaf gan weithredwyr annibynnol ar sail fasnachol, nid yn uniongyrchol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr na thrwy unrhyw gontract gyda'r cyngor a gweithredwyr. Gan hynny, pe bai un gweithredwr yn penderfynu tynnu allan o'r farchnad, ychydig iawn fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol

Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu ei wneud am y sefyllfa. Byddai'r bwlch mewn gwasanaethau'n debygol o gael ei lenwi gan weithredwyr masnachol eraill a oedd yn ceisio cael cyfran uwch o'r farchnad a manteisio ar y cyfle a gyflwynwyd. Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd ati i annog a hwyluso'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau bod llwybrau'n cael eu darparu, nid oes cynllun penodol gan nad yw'n wasanaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan y cyngor.

**Cwestiwn atodol pellach gan y Cynghorydd Tim Thomas**
Bydd dyfodol llwybrau bysiau a chymorthdaliadau bysiau o fewn y Fwrdeistref Sirol yn siŵr o gael effaith ar ddyfodol gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr a ph'un a fydd yn aros ar agor. A oes dadansoddiad o'r effaith economaidd wedi'i gynnal i edrych ar hyfywedd gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol, ochr yn ochr â chymorthdaliadau bysiau/llwybrau bysiau

**Ymateb**
Mae'r toriadau sy'n wynebu'r cyngor ar hyn o bryd a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol yn ddigyffelyb a byddant yn ein bwrw'n galed. Bydd y posibilrwydd o gau gorsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr yn rhywbeth y bydd yn rhaid ei ystyried fel rhan o ostyngiadau'r strategaeth ariannol tymor canolig. Er nad yw'r cyngor eisiau cau'r cyfleuster hwn, rhaid hefyd ystyried y gost o'i gadw ar agor o ddifrif.

**3. Cwestiwn gan y Cynghorydd Tom Giffard i'r Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Dangosodd cais Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynais yn ddiweddar fod y cyngor hwn wedi gwario bron i £200,000 ar wasanaethau cyfieithu Cymraeg allanol dros y 18 mis diwethaf.

A wnaiff Aelod y Cabinet esbonio pam nad yw'r cyngor yn rhoi blaenoriaeth i gyflogi cyfieithwyr mewnol i gadw'r gyllideb gynyddol hon dan reolaeth?

**Ymateb**
Cyfanswm ein costau ar draws yr awdurdod am brynu gwasanaethau cyfieithu oedd £192,535 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Hydref 2018.

Nid oes digon o achos busnes ar hyn o bryd dros gyflogi tîm mewnol am y rhesymau dilynol, ond wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w adolygu pe bai'r amgylchiadau'n newid. Mae'r rhesymau dros beidio â chreu gwasanaeth mewnol ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Mae hwn yn ofyniad newydd, felly mae'n cymryd amser i bennu graddfa'r gofyniad cyfieithu. Cytunodd y cyngor a Chomisiynydd y Gymraeg ar y safonau terfynol ym mis Tachwedd 2018, ac mae gwahanol safonau wedi cael gwahanol ddyddiadau gweithredu ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Mae'r costau blynyddol felly wedi amrywio o oddeutu £53 mil yn ystod 2015-16 i oddeutu £130 mil yn ystod 2017-18. Ein cost rhagweledig ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn gyfredol yw £110 mil.
- Er mwyn creu gwasanaeth mewnol cadarn, a fyddai'n gallu ateb y galwadau mwyaf brys am gyfieithu (e.e. cyfieithu agenda'r Cabinet a'r cyngor o fewn pum diwrnod gwaith), byddai'r gost flynyddol oddeutu **£136 mil** (gan gynnwys ar gostau), ar sail y strwythur canlynol:
    - Uwch gyfieithydd – Gradd 10 (£29,055 - £30,756)
    - Cyfieithydd x 3 – Gradd 8 (£23,111 - £24,657)

- Er mwyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sefydlu gwasanaeth cyfieithu mewnol, rhagwelir y byddai angen prynu system TG ychwanegol i reoli'r prosesau cyfieithu, sydd, yn naturiol, yn dod law yn llaw â chostau gweinyddu, cynnal a chadw a rheoli amser. Nid ydym wedi costio'r elfen hon ar hyn o bryd.
- Gwyddom fod awdurdodau lleol eraill sydd â gwasanaeth mewnol wedi cael anawsterau yn recriwtio cyfieithwyr Cymraeg, ac maent hefyd wedi cael problemau cadw staff pan fyddant wedi llwyddo i'w recriwtio, oherwydd y galw uchel am gyfieithwyr Cymraeg.
- Mae'r awdurdodau hynny â gwasanaethau mewnol hefyd wedi gorfod prynu gwasanaethau cyfieithwyr allanol er mwyn ateb y galw a chyflenwi swyddi gwag ac absenoldebau staff eraill.

Felly, nid oes achos busnes cadarn dros fuddsoddi mewn staff ychwanegol o'r fath ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y'i nodwyd eisoes, mae hwn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w adolygu pe bai'r amgylchiadau'n newid.

Bydd diweddariadau'n parhau i gael eu cyflwyno i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tom Giffard**
Gofynnodd y Cynghorydd Giffard ei gwestiwn yn Gymraeg i ddechrau, ond wedi i'r Aelod Cabinet uchod ofyn iddo ei holi yn Saesneg, ymatebodd yn briodol fel a ganlyn:-

A allai adroddiad gael ei baratoi ar yr uchod i'w gyflwyno i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb er mwyn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg a'r gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg mewn mwy o fanylder. Dylai pob Cynghorydd allu gweithio'n ddwyieithog.

**Ymateb**
Rydym yn cymryd ein dyletswydd o ran y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys Cymraeg yn y gweithle a Safonau'r Gymraeg, yn ddifrifol iawn. Mae hwn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried hefyd gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb fel rhan o'i adroddiadau rheolaidd ar gasglu data am gyflogeion ac ati. Caiff eitem agenda reolaidd ei hystyried gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar ddefnyddio'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg. Ychwanegodd Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol nad oedd pob aelod yn siarad Cymraeg nac wedi cael y cyfle i ddysgu Cymraeg.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**
Pa gyfleoedd sydd ar gael i staff y gweithle ymarfer a dysgu cyfathrebu yn Gymraeg, ac a oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno hyn ymhellach.

**Ymateb**
Mae cyrsiau ar gael yn y gweithle i gyflogeion ddysgu Cymraeg, ac maent yn cael amser o'r gwaith â thâl i wneud hyn. Fodd bynnag, mae unrhyw astudio ar gyfer hyn yn wirfoddol yn hytrach na'n orfodol. Mae'r awdurdod hefyd yn annog recriwtio staff addysgu sy'n siarad Cymraeg, ac roedd cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a Chonsortiwm Canolbarth y De at y diben hwn. Mae carfannau ar gyfer cyrsiau hyfforddi lefel 1 a lefel 2 mewn siarad Cymraeg, ac roedd y cyngor hefyd yn ceisio recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi gwag lle bynnag yr oedd yn bosibl, gan gynnwys rolau prentisiaeth.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alex Williams**
Nid ydym yn cyhoeddi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar-lein oherwydd y costau cyfieithu sy'n gysylltiedig â hyn. A yw hyn yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac a yw hyn yn cael sylw ochr yn ochr o bosibl â recriwtio mwy o gyflogeion Cymraeg.

**Ymateb**

Os caiff cais Rhyddid Gwybodaeth ei osod ar wefan y cyngor, caiff ei gyfieithu (i'r Gymraeg). Os na chaiff ei osod ar wefan y cyngor, ni chaiff ei gyfieithu hyd oni ofynnir amdano yn Gymraeg.

**4. Cwestiwn gan y Cynghorydd Altaf Hussain i Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Er mwyn datblygu cymunedau mwy egnïol a'ch cyraeddiadau mewn partneriaeth â Chanolfan Hamdden HALO, gyda chynnydd o 9% yn yr ymweliadau â Chanolfannau Bywyd yn dilyn eich buddsoddiad mawr yn eu cyfleusterau, a all Aelod y Cabinet ddweud wrthym pa ganolfannau eraill yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, ar wahân i HALO, y gall trigolion dros 60 mlwydd oed gael mynediad atynt?

A all Aelod y Cabinet hefyd ddweud wrthym ers pryd y mae'r cyngor wedi buddsoddi yn y Canolfannau Bywyd hyn, a faint sydd wedi ei fuddsoddi hyd yma er mwyn cyflawni'r cynnydd hwn o 9% mewn ymweliadau?

**Ymateb**

O ran cyfranogiad pobl dros 60 oed mewn canolfannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar wahân i HALO, sy'n darparu gwasanaethau cryf, yn enwedig y fenter Nofio Cenedlaethol am ddim i bobl dros 60 oed (yr uchaf yng Nghymru) a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (yr ail fwyaf yng Nghymru). Mae gan Ben-y-bont Gynllun Heneiddio'n Dda, sy'n targedu datblygiad cymunedau sy'n gyfeillgar i'r henoed, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer pontio'r cenedlaethau yn hytrach na gweithgareddau ar wahân ar gyfer demograffeg benodol. Byddai'r uchelgeisiau allweddol yn cynnwys trechu unigrwydd ac ynysiad drwy gysylltu oedolion hŷn a chymunedau, lleihau cwympiadau neu ofn cwympo a datblygu cyfleoedd cefnogi dementia hefyd.

Yn ogystal â chyfleusterau hamdden, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chynghorau tref a chymuned, pwyllgorau rheoli gwirfoddol ac Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i sicrhau bod 18 o ganolfannau cymunedol ar gael yn lleol. Mae'r canolfannau hyn yn cefnogi gweithgareddau megis symud a dawnsio ac ymarfer corff, a chyfleoedd creadigol a chymdeithasol. Mae ein Cydlynwyr Cymunedol Lleol yn cysylltu pobl sy'n agored i niwed â chyfleoedd o'r fath ac yn helpu i ddatblygu cyfleoedd newydd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru i fuddsoddi mewn grwpiau a chyfleoedd cymunedol drwy gynllun y Gist Gymunedol. Yn ystod 2017-18, roedd oddeutu chwe phrosiect yn cael eu cefnogi, y gellid eu hystyried fel rhai a oedd yn fwy penodol ar gyfer pobl dros 60, gyda rhwng £6 ac £8 mil o fuddsoddiad.

Mae ein partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cynnwys cynllunio datblygiadau gwasanaethau ar y cyd er mwyn sicrhau bod ein llyfrgelloedd a'n lleoliadau diwylliannol yn cysylltu â'r Cynllun Heneiddio'n Dda (ac yn ei gefnogi). Crëwyd partneriaeth ddiwylliannol Awen yn 2014 i reoli llyfrgelloedd, lleoliadau a theatrau diwylliannol, datblygiadau celfyddydol a gwasanaethau diwylliannol y cyngor ac i reoli Parc Bryngarw ar ein rhan ni. Mae'r cyfleoedd wedi cynnwys symud ac ymarfer corff mewn llyfrgelloedd, y cynllun 'llyfrau ar bresgripsiwn', cynllun HYNT, cynnig cymorth i ofalwyr, cymorth i ddatblygu Siediau Dynion a'r gwasanaethau llyfrgell symudol, "Llyfrau ar Glud" ar gyfer y rhai hynny sy'n gaeth i'w cartrefi. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi parhau i fuddsoddi yng Nghanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr a gwasanaethau perthnasol, lle y caiff rhaglen gytbwys o ymarfer corff a gweithgareddau cymdeithasol a llesiant eu cynnal.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi sicrhau y gall pobl sy'n mynychu gofal preswyl a gofal dydd fod yn fwy egnïol drwy'r rhaglenni 'Symud yn fwy aml' ac 'Olympage', gan gynnwys hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr perthnasol. Mae hyn wedi datblygu i fod yn rhaglenni a digwyddiadau rheolaidd yn y canolfannau cymunedol a

arweinir gan bersonél y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gweithir yn agos â Shout (y fforwm pobl hŷn) a chefnogir gweithgareddau Tai Chi ar gyfer llesiant yn Evergreen Hall ac amrediad o leoliadau nad ydynt yn eiddo i'r cyngor (e.e. Caerau, Cefn Glas). Ceir hefyd sesiynau allgymorth symudol, fel sgrinio ffordd o fyw, atal cwympiadau ym Mhorthcawl, Maesteg a Chwm Ogwr sy'n gysylltiedig â chanolfannau cymunedol neu dai gwarchod.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) a'r Gymdeithas Alzheimer bellach i gefnogi datblygiad cymunedau mwy cyfeillgar i ddementia, a bydd hyn yn cynnwys HALO ac Awen. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion i ddod yn fwy cyfeillgar i'r henoed, a bydd hyn yn cynnwys ein safleoedd deuddefnydd, lle gwelwyd twf ym mhresenoldeb cyffredinol pobl dros 60 oed yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ein gwaith gydag oedolion hŷn wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd awyr agored a mannau gwyrdd. Mae ein rhaglen Dwli ar Gerdded (Love2Walk) yn cynnig rhwng chwech a 12 taith gerdded wythnosol (amrywio yn ôl y tymhorau) dan arweiniad arweinwyr cerdded gwirfoddol, a gwnaeth gŵyl gerdded 2018 ddenu 291 o gyfranogwyr. Yn yr un modd, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gynnig y rhaglen ParkLives. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae hon wedi canolbwyntio'n benodol ar oedolion hŷn a gweithgareddau awyr agored.

Yn 2012, sefydlwyd y Bartneriaeth Byw'n Iach rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a GLL/HALO, ac roedd yn cynnwys wyth canolfan hamdden a chyfleusterau pwll nofio a gwasanaethau perthnasol. Y prif amcanion wrth sefydlu'r bartneriaeth oedd sicrhau bod yr asedau'n parhau i fod yn addas i'r diben, sicrhau bod costau'r cyngor yn lleihau, sicrhau bod y cyngor yn cadw rheolaeth benodol dros brisiau a rhaglenni, gan hefyd gyflawni ar ganlyniadau cymdeithasol fel cymunedau iachach, plant a phobl ifanc a chymunedau cryf.

Y buddsoddiad cyfalaf ar ddechrau'r bartneriaeth oedd £4.3 miliwn, a chaiff hwn ei ad-dalu yn ystod y 15 mlynedd y mae'r contract yn gweithredu drwy gyllidebau refeniw blynyddol. Cefnogodd y buddsoddiad cychwynnol ddatblygiad Canolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr fel cyfleuster blaenllaw, ac roedd yn hanfodol i gefnogi uchelgais y cyngor am gyfleusterau cynaliadwy a darpariaeth ddarbodus. Ers 2012, mae ein partneriaid wedi parhau i fuddsoddi mewn gwella asedau, gan gynnwys cyd-leoli llyfrgelloedd, mannau chwaraeon pob tywydd, cyfarpar cadw'n heini modern, gosodiadau arbed ynni a mwy. O ran costau blynyddol cyffredinol i'r cyngor, mae'r ffi reoli sy'n daladwy i HALO 50% yn llai na chost y canolfannau hamdden yn 2011-12 bellach, pan oedd y gwasanaethau'n cael eu rhedeg gan y cyngor. Mae prydles drwsio lawn yn rhan annatod o'r ffi reoli.

Mae'r pwyslais ar weithio mewn partneriaeth ledled y Fwrdeistref Sirol a chynnwys amrediad eang o sefydliadau wedi'i gydnabod mewn arolygiad diweddar gan Quest, cynllun Ansawdd y DU ar gyfer chwaraeon a hamdden. Mae'r dull gweithredu a ddefnyddir ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi ei asesu fel dull 'ardderchog', a hwn yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru i ennill y safon hon. Mae'r bartneriaeth â Halo wedi ei rheoli o fewn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae hyn wedi cynorthwyo â chyfeiriad strategol y bartneriaeth i wella llesiant ac effeithio ar grwpiau penodol o'r boblogaeth.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain**
Byddai'n rhoi hwn i Aelod y Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y tu allan i'r cyfarfod, a gofynnodd am ymateb ysgrifenedig y tu allan i'r cyfarfod (h.y. i bob aelod).

256. <u>Y BROSES BENODI: PRIF WEITHREDWR</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyngor ynghylch recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr.

Nododd fod y swydd hon wedi dod yn wag yn dilyn ymddiswyddiad y deiliad swydd cyfredol, a byddai cyflogaeth yr unigolyn hwn yn dod i ben gyda'r awdurdod ar 6 Ionawr 2019.

Aeth yr adroddiad ymlaen i nodi bod y swydd hon wedi'i llenwi'n ddiweddar dros dro hyd nes y byddai penodiad parhaol yn cael ei wneud.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r cyngor yn cynnig cymorth proffesiynol i wneud gwaith chwilio ac asesu gweithredol ar gyfer y rôl, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei marchnata'n eang, ac yna byddai proses benodi gadarn yn dilyn.

Ychwanegodd y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n gynnar yn y flwyddyn newydd, a chynigir y bydd y broses ar ôl derbyn y ceisiadau yn unol â'r hyn a nodwyd ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn cymeradwyo'r broses recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr fel y'i nodwyd ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

257. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - BAND B

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd a'r Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 dros dro adroddiad ar y cyd. Diben hwn oedd fel a ganlyn:

- diweddaru'r cyngor o ran canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o ddull cyllido Band B y Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r cyfraddau ymyrraeth grant cyfalaf diwygiedig
- cael cymeradwyaeth y cyngor ar yr ymrwymiad ariannol diwygiedig sydd ei angen i gyflawni Band B y rhaglen moderneiddio ysgolion
- cymeradwyo newid i'r rhaglen gyfalaf er mwyn adlewyrchu'r ymrwymiad diwygiedig

Mae paragraff 2 yr adroddiad yn nodi'r egwyddorion, fel y'u cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2015, a fabwysiadwyd gan swyddogion wrth lunio'r cyngor sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad cyfredol.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd atgoffa'r aelodau o brif amcanion y rhaglen moderneiddio ysgolion, a hyrwyddwyd gan y cyngor yn 2006, fel y'u dangosir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.

Er mwyn llywio ein dull o foderneiddio ysgolion, mae swyddogion hefyd wedi gweithio â phartneriaid amrywiol i ystyried y canlynol yn ofalus:

- cyflwr yr adeiladau
- y gwaith cynnal a chadw sydd eto i'w wneud
- twf y boblogaeth
- amcanestyniadau poblogaeth disgyblion
- datblygiadau tai a nodwyd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol

Bydd aelodau'n ymwybodol fod rhaglen moderneiddio ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma, gyda chwe darpariaeth newydd eisoes yn cael eu

hadeiladu o fewn Band A, a'r bwriad i agor Ysgol Calon y Cymoedd ym mis Ionawr 2019.

Ym mis Hydref 2017, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet a oedd yn nodi canlyniad gwaith y ffrwd waith moderneiddio ysgolion a chyflwyniad y rhaglen amlinellol strategol ddiwygiedig.

Gwnaeth y Cabinet ystyried y cynlluniau Band B arfaethedig, a phenderfynu cymeradwyo'r canlynol, ar sail y galw cynyddol am leoedd, y gofyniad i hybu'r Gymraeg a chyflwr yr adeilad:

- Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (cyflwyno dau ddosbarth (AB)) - grant cyfalaf
- De-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (2.5AB) - grant cyfalaf
- Ysgol Arbennig Pen-y-bont ar Ogwr (270 o leoedd) – Model Buddsoddi Cydfuddiannol
- Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – cyfrwng Cymraeg (2AB) - grant cyfalaf
- Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr – cyfrwng Saesneg (2AB) - grant cyfalaf

Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £30 miliwn mewn grant cyfalaf ledled Cymru er mwyn hybu'r Gymraeg a chefnogi ymrwymiad Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a gofynnwyd i gynghorau wneud cais yn ei erbyn. Nododd swyddogion yr angen i greu cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg a fyddai'n cyflwyno cyfleoedd iaith Gymraeg i ardaloedd yn y fwrdeistref sirol lle nad oes digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd (hynny yw: Bro Ogwr a Chwm Garw, Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl). Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cais Pen-y-bont ar Ogwr am £2.6 miliwn mewn egwyddor.

Yn ystod ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2018, cymeradwyodd y cyngor, mewn egwyddor, yr ymrwymiad ariannol y byddai ei angen ar gyfer Band B y rhaglen moderneiddio ysgolion.

Amcangyfrifwyd y byddai'r rhaglen gyffredinol yn costio oddeutu £68.2 miliwn; rhagwelwyd y byddai oddeutu £43.2 miliwn o hwn yn dod o gyllid cyfalaf (oddeutu £23 miliwn wedi ei ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), a chynigiwyd bod y gweddill yn cael ei ariannu drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynghori awdurdodau lleol y byddai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, sef dull newydd o fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus yng Nghymru, lle bydd partneriaid preifat yn adeiladu ac yn cynnal a chadw ysgolion yn gyfnewid am ffi, yn talu am gostau adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu'r prosiect.

Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yw 75%, a bydd hwn yn cael ei dalu i'r awdurdod lleol ar ffurf grant. Bydd cyllidebau refeniw yr awdurdod lleol yn talu am y 25% arall dros gyfnod contract o 25 mlynedd. Roedd hefyd angen i'r awdurdod lleol dalu 50% o'r costau cyfalaf ymlaen llaw ar gyfer dodrefn, offer a TG.

Ar ddiwedd cyfnod penodol o amser, bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n cyflwyno pecyn o gynlluniau i'r farchnad fel prosiectau dylunio ac adeiladu a oedd yn cynnwys nifer o gynlluniau o fewn ardal ddaearyddol (gan gynnwys cynlluniau ar draws ardaloedd awdurdod lleol), a byddent yn ddigon gwerthfawr i ddenu cwmnïau mawr (e.e. £100 miliwn).

Ers cymeradwyo'r cynllun amlinellol strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cynlluniau sydd wedi eu cynnig ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw cynnwys cynlluniau bach neu gymhleth iawn (fel ysgolion arbennig) yn cyflwyno gwerth am arian drwy lwybr y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

O ganlyniad, ni chredir bod Ysgol Arbennig Pen-y-bont ar Ogwr yn addas i'w chyflawni o dan y model ariannu hwn.

Mae'n bwysig nodi bod hyn yn ymwneud yn gyfan gwbl â phenderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i dynnu ysgolion arbennig o gyllid y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn hytrach na bai yr awdurdod lleol.

Oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru, roedd angen ailystyried y dull o ariannu cynlluniau Band B Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen. Felly, cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar 20 Tachwedd i'w gymeradwyo ar gyfer dull ariannu diwygiedig, cyn cael cymeradwyaeth y cyngor llawn ar 21 Tachwedd.

Ar 20 Tachwedd, cymeradwyodd y Cabinet becyn ariannu diwygiedig a oedd yn seiliedig ar ariannu dau gynllun ysgol gynradd drwy lwybr y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a dau gynllun ysgol gynradd a chynllun ysgol arbennig drwy lwybr y grant cyfalaf.

Fodd bynnag, cyn y cyflwynwyd yr adroddiad i'r cyngor, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newid i gyfradd ymyrraeth y grant cyfalaf. Cynyddodd cyfraniadau Llywodraeth Cymru tuag at Fand B 75% ar gyfer cynlluniau ysgolion arbennig ac unedau atgyfeirio disgyblion, a 65% ar gyfer pob cynllun arall; byddai cyfradd ymyrraeth y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn parhau i fod ar 75%.

Gan y byddai'r newid yn y gyfradd ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar gost y cyngor o gyflawni Band B, penderfynwyd gohirio adroddiad y cyngor, oherwydd nad oedd y manylion yn ffeithiol gywir mwyach a gallai'r newid yn y gyfradd ymyrraeth effeithio ar y dull cyflawni arfaethedig; byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad o ran hyn. Rwy'n ddiolchgar i'r aelodau am ganiatáu i mi ddod â'r papur hwn yn ôl i'r cyfarfod hwn.

Bydd aelodau'n cofio pan gyflwynwyd y mater hwn gerbron cyfarfod llawn y cyngor ym mis Ionawr 2018, gofynnwyd am oddeutu £23 miliwn o arian cyfalaf cyfatebol i gyflawni'r pedwar cynllun ysgol gynradd a nodwyd bryd hynny.

Ceir cymhariaeth gynhwysfawr o gynlluniau'r grant cyfalaf a'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn Nhabl 1 yr adroddiad.

Mae'n bwysig nodi er na ellir cadarnhau'r ffigurau ar hyn o bryd, ni fydd benthyca digymorth yn digwydd hyd oni fydd y cyllid cyfalaf cyffredinol, cyllid adran 106 a derbyniadau cyfalaf sydd ar gael a chronfeydd cyfalaf wrth gefn sydd wedi eu clustnodi wedi eu gwario, a bydd hyn yn gofyn am gyllideb refeniw rheolaidd i fodloni'r costau benthyca.

Mae paragraff 8.4 yr adroddiad yn amlinellu'r pedwar opsiwn a ystyriwyd gan swyddogion.

Mae paragraff 8.6 yn crynhoi goblygiadau refeniw a chyfalaf llawn bob opsiwn ariannu diwygiedig ar sail y rhagdybiaethau cyfredol.

Mae'n bwysig nodi mai amcangyfrifon yw'r costau hyn, sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd, a gwybodaeth am y Model Buddsoddi Cydfuddiannol a

dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, a byddant yn newid yn unol â chynnydd mewn cyfraddau chwyddiannol a llog.

Wedi hyn, ehangodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd ar yr opsiynau cyllido amrywiol (Opsiynau 1 i 4) a ystyriwyd gan swyddogion, fel y'u hamlinellwyd ym mharagraffau 8.4 i 8.11 yr adroddiad, a nodi'r rhesymau pam y credir mai Opsiwn 2 yw'r dewis gorau.

Dywedodd aelod y gobeithiai y byddai unrhyw ysgolion newydd arfaethedig a adeiladwyd o ansawdd da ac i'r safonau gofynnol fel rhan o brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif Pen-y-bont ar Ogwr.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig sydd ei hangen o ran Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion i'w chynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

258. DEDDF GAMBLO 2005 - DATGANIAD EGWYDDORION

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad, gyda'r diben o adrodd ar ganlyniad yr adolygiad tair blynedd o'r Datganiad Egwyddorion Gamblo, y fframwaith sy'n rheoli'r ffordd y mae'r awdurdod hwn yn cyflawni ei ddyletswyddau fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer gamblo. Adroddwyd y mater hwn i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, ond y cyngor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Datganiad Egwyddorion ar gyfer y tair blynedd nesaf o 2019 ymlaen.

Gwahoddodd y Maer Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i gyflwyno'r adroddiad.

Nododd fod Deddf Gamblo 2005 yn darparu system rheoleiddio ar gyfer rheoli pob gweithgaredd gamblo a ddarperir ym Mhrydain Fawr, ar wahân i'r Loteri Genedlaethol a 'spread betting'. Sefydlwyd y Comisiwn Gamblo o dan Ddeddf Gamblo 2005 i reoleiddio'r gamblo masnachol ym Mhrydain Fawr, mewn partneriaeth ag awdurdodau trwyddedu fel rheoleiddwyr lleol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Comisiwn a'r awdurdodau trwyddedu i geisio trwyddedu gamblo, cyn belled ag y credir ei fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu, a nodwyd y fframwaith rheoleiddio llawn ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

Aeth ymlaen drwy gadarnhau bod angen i'r cyngor gyhoeddi datganiad polisi, a elwir yn Ddatganiad Egwyddorion, bob tair blynedd. Roedd y ddogfen gyfredol wedi ei hadolygu ac ymgynghoriad drafft wedi ei gynnal. Roedd copi o'r Datganiad Egwyddorion drafft wedi ei atodi yn Atodiad A yr adroddiad, gyda'r elfennau a adolygwyd wedi eu lliwio'n goch. Tynnodd sylw'r cyngor at dudalen 7 Atodiad A, a oedd yn nodi bod nifer y safleoedd betio ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2018 wedi gostwng o 17 i 16.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y cyngor i ddatblygu Datganiad Egwyddorion sy'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu sydd wedi eu cynnwys ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Awgrymodd dadansoddiad o gwynion a gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor ers y diwygiwyd y Datganiad ddiwethaf nad oedd unrhyw dueddiadau na phryderon newydd wedi codi yn ystod y tair blynedd diwethaf, naill ai gan y sector neu'r lleoliad. Un o'r pryderon gorfodi a oedd wedi codi oedd lleoli peiriannau mewn siopau tecawê a siopau eraill. Mae hyn yn anghyfreithlon, ac arweiniodd at erlyniad, felly ni ellir ymdrin ag ef fel mater polisi.

Nododd nad oedd newidiadau mawr wedi eu gwneud i'r Datganiad Egwyddorion, ond, mae'n dilyn y dull gweithredu a nodwyd yn y bumed argraffiad o'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu, a chyfeirir at hwn ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

Golygai hyn y bydd yr awdurdod, heb unrhyw ffactor neu risg leol, yn dilyn dull y Comisiwn Gamblo o reoleiddio gamblo, fel y nodir yn y canllawiau. Er bod yn rhaid i'r awdurdod ystyried y canllawiau wrth wneud penderfyniadau, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r canllawiau yn ceisio rhwystro'r awdurdod rhag defnyddio ei ddoethineb wrth ymdrin â cheisiadau neu gydymffurfiaeth.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod ymarfer ymgynghori wedi ei roi ar waith fel rhan o'r adolygiad, a oedd yn cynnwys y cyrff a'r rhanddeiliaid hynny a nodir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dan sylw rhwng 31 Awst a 9 Tachwedd 2018. Nodwyd yr ymatebion i hwn yn Atodiad B yr adroddiad.

Nid oedd y Datganiad Egwyddorion drafft yn cynnwys mater perthnasol, ar ffurf diwygiadau penodol a ddangosir o baragraff 4.8.2 i baragraff 4.9.2 yr adroddiad.

Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir fod y Llywodraeth, er nad oedd yn effeithio ar yr adolygiad polisi hwn, wedi cyhoeddi newid i'r arian betio sy'n gysylltiedig â pheiriannau chwarae gemau a elwir yn "Derfynellau Betio Ods Penodedig". Peiriannau electronig a geir mewn siopau betio yw Terfynellau Betio Ods Penodedig, sy'n cynnwys gemau amrywiol, gan gynnwys *roulette*. Yr uchafswm y gellir ei roi ar un fet yw £100, a'r brif wobr yw £500. Mae llawer o ddadlau wedi bod ynghylch y peiriannau hyn, gyda phryderon yn cael eu lleisio ynghylch y ffaith fod gan y peiriannau hyn gyswllt achosol â phroblemau gamblo oherwydd y symiau mawr o arian y gellir eu colli mewn amser byr. O fis Ebrill 2019, bydd yr uchafswm y gellir ei roi ar fet yn lleihau i £2.00. (Ffynhonnell: Papur briffio llyfrgell Senedd y DU, 16 Tachwedd 2018).

Gofynnodd aelod i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, faint o wiriadau profi oedran wrth brynu oedd wedi eu gwneud yn ystod y tair blynedd diwethaf, a faint o'r rhain a ganfuwyd i fod yn rhy ifanc.

Atebodd y byddai'n gallu darparu'r wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd aelod at dudalen 45 y papurau, lle roedd y sefyllfa ar ffurf tabl, a ddaeth o ganfyddiadau dadansoddiad lleol o broffil gamblo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Teimlai y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r data a nodwyd yma'n gallu cael ei gymharu â data awdurdodau cyfagos.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir y gallai gwblhau ymarfer cymharu data o'r fath, a dod yn ôl at yr aelod eto y tu allan i'r cyfarfod.

Er bod aelod yn cydnabod y rheoliadau oedd gan yr awdurdod lleol a sefydliadau eraill ar waith ar gyfer gamblo, roedd yn poeni ynghylch y pethau a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth. O'r herwydd, teimlai y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyngor yn ysgrifennu at yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, gan ofyn iddo edrych ar y materion sy'n ymwneud ag annog gamblo, drwy er enghraifft, gor-hysbysebu gwefannau gamblo ar-lein ac ati.

Nododd yr Arweinydd y byddai'n trefnu i hyn ddigwydd, ac yn anfon llythyr ar ran y cyngor yn crybwyll hyn, i'r Comisiynydd Gamblo, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ofcom.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Egwyddorion Gamblo ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019 a 2021, gan gynnwys diwygiadau arfaethedig 1 - 3 y cyfeiriwyd atynt rhwng paragraff 4.8.1 a pharagraff 4.9.2 yr adroddiad, ac yn cymeradwyo'r cyhoeddiad yn unol â'r rheoliadau.

259. PENODI CYNRYCHIOLYDD COFRESTREDIG I'R PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU PWNC

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad, gan geisio cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer penodi'r Parchedig Ganon Edward Evans fel Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru dros eitemau Addysg sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, am bedair blynedd ar y mwyaf.

Rhoddodd yr adroddiad ychydig o wybodaeth gefndirol, a chadarnhawyd bod y Parchedig Ganon Edward Evans wedi cwblhau cyfnod mewn swydd yn y rôl uchod ac ers hynny wedi ei enwebu i gael ei ailbenodi i gwblhau cyfnod pellach ar y Pwyllgor(au).

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn nodi'r adroddiad a chymeradwyo penodiad yr unigolyn uchod fel y Cynrychiolydd Cofrestredig dros eitemau Addysg sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, am gyfnod pellach o bedair blynedd.

260. EITEMAU BRYS

PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Maer dderbyn yr eitem ganlynol fel eitem frys, yn unol â darpariaethau paragraff 4 Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, fel y'u cynhwyswyd yn Rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor, oherwydd bod yr adroddiad wedi'i hepgor o'r agenda yn sgil problemau technegol wrth gyhoeddi'r agenda a'r papurau cysylltiedig. Mae angen penderfyniad ar yr adroddiad cyn y cyfarfod nesaf sydd wedi ei drefnu ar gyfer y cyngor ym mis Ionawr 2019.

261. RHAGLEN GYFALAF 2018-19 I 2027-28

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad gyda’r diben o gael cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2018-19 a 2027-28.

Dywedodd fod y cyngor wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf ar 28 Chwefror 2018, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod uchod fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Ers hynny, mae cynlluniau ychwanegol wedi eu cymeradwyo gan y cyngor, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Canolfan Fenter, dosbarthiadau newydd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, cynllun adfywio Porthcawl a Depo Tredŵr, ynghyd â nifer o gynlluniau a ariannwyd yn allanol.

Mae nifer o gynlluniau newydd wedi eu datblygu ers i'r rhaglen gael ei chymeradwyo ddiwethaf, felly mae angen i'r cyngor gymeradwyo'r newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf. Amlinellwyd y rhain rhwng paragraff 4.2 a 4.12 yr adroddiad, a chyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro grynodeb o bob un o'r rhain fel y'u nodir isod, ynghyd ag unrhyw oblygiadau adnoddau ychwanegol oedd angen eu hymrwymo at bob un o'r cynlluniau a restrwyd.

Roedd y cynlluniau hyn fel a ganlyn:-

- Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Gynradd Pencoed
- Ysgol Gynradd Cwmfelin – Adeiladau

- Canolfan Diogelu Amlasiantaethol
- Gweithio Ystwyth
- Ehangu mynwentydd
- Fflyd
- Rhaglen dreigl TGCh
- Rhaglen Buddsoddi ym Mhorthcawl (PRIF)
- Cofrestryddion
- Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod nifer o gynlluniau wedi eu datblygu ers i'r Rhaglen Gyfalaf gael ei chymeradwyo, ac roedd angen cymeradwyo'r rhain (gan y cyngor).

O ran rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif, dywedodd wrth yr aelodau, er bod gwaith ymchwilio ar y safle wedi ei wneud cyn gosod contract adeiladu Ysgol Gynradd Pencoed, bod angen cyflawni gweithgareddau torri a llenwi sylweddol ar y safle nas rhagwelwyd yn wreiddiol, gan olygu cynnydd o £200,000 yng nghostau'r prosiect. Y bwriad oedd y byddai tanwariant arall rhagweledig mewn cynlluniau Band A eraill yn talu am y gost ychwanegol hon. Hysbysodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro y Cabinet fod cyllideb o £165,000 wedi ei chynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer darparu mwy o leoedd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin. Fodd bynnag, ar ôl datblygu'r cynllun, credwyd nad oedd yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer y prosiect yn ddigonol, ac er bod ymarfer gwerth peirianneg wedi ei gynnal, derbyniwyd cost prosiect ddiwygiedig o £235,000, gan arwain at gyllid ychwanegol o £70,000 yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd, a chynigiwyd y byddai hwn yn cael ei gymryd o gyllideb cadw'r rhaglen moderneiddio ysgolion.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod buddsoddiad cyfalaf o £205,000 wedi ei gymeradwyo ar gyfer sefydlu Canolfan Diogelu Amlasiantaethol. Fodd bynnag, roedd y Ganolfan Diogelu Amlasiantaethol wedi symud i Raven's Court, gan olygu bod y costau'n llawer llai nag y rhagwelwyd, a byddai hyn yn rhyddhau £45,116 o gyllid ar gyfer cynlluniau eraill. Adroddodd hefyd fod cyllid cyfalaf o £1.217 miliwn wedi ei gymeradwyo ar gyfer buddsoddi mewn TGCh er mwyn cyflawni Gweithio Ystwyth, a oedd yn dibynnu ar gael tenant ar gyfer Raven's Court. Yn dilyn penderfyniadau ar ble i roi'r Ganolfan Diogelu Amlasiantaethol, ni fyddent bellach yn mynd ati i farchnata Raven's Court ac, o ganlyniad, nid oedd angen y buddsoddiad a nodwyd ar y dechrau mwyach. Gwnaeth hyn adael balans o £1.201 miliwn i'w ddad-ymrwymo a'i ddefnyddio ar gyfer cynlluniau eraill.

Gwnaeth y Pennaeth Cyllid Dros Dro hefyd nodi bod cyllid o £360,000 wedi'i neilltuo ar gyfer ehangu mynwentydd ym Mhorthcawl a Gogledd Corneli, ond o ganlyniad i waith ymchwilio a dichonolrwydd pellach, bu'n rhaid i £170,000 ychwanegol gael ei ariannu gan fenthyciad darbodus. Adroddodd hefyd fod angen cyllideb cyfalaf o £1.64 miliwn er mwyn prynu cerbydau cynnal a chadw priffyrdd newydd i'w hariannu o gyllidebau refeniw cyfredol cleientiaid, trwy gyfraniadau refeniw at fenthyciadau cyfalaf neu ddarbodus. Yn dilyn adolygiad o'r ystâd TGCh, nododd hefyd y byddai angen cynnydd o £226,375 wedi'i ariannu drwy gyfraniad refeniw o gyllideb y rhaglen dreigl TGCh gyfredol.

Nododd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod yr ymarfer caffael ar gyfer prosiect y Rhaglen Buddsoddi ym Mhorthcawl wedi ei gwblhau, ac wedi cynyddu i £2,924,000; roedd angen diwygio'r gofyniad cyfatebol i £1,358,060. Roedd yr arian cyfatebol wedi ei greu gan amrywiaeth o adnoddau allanol a chyllid y Cyngor. Nododd pe bai cyfleoedd yn codi i gael gafael ar fwy o gyllid allanol, naill ai drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop neu ffynonellau eraill, bydd y rhain yn cael eu targedu mewn ymdrech i leihau'r gofyniad am adnoddau'r cyngor ymhellach.

Adroddodd hefyd fod cryn dipyn o ddiddordeb masnachol yn y tir a'r adeilad (Tŷ'r Ardd), lle mae Swyddfa'r Cofrestrydd a Llyfrgell Gyfeirio Awen. Mae mwy o briodasau wedi eu canslo oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar y tir cyfagos. Gyda mwy o waith i ddod ar y safle, roedd yn debygol o arwain at fwy fyth o briodasau'n cael eu canslo. Mae gwaith dichonolrwydd wedi ei wneud ar adleoli Swyddfa'r Cofrestrydd, a gellir ei rhoi ar lawr daear y Swyddfeydd Dinesig. Byddai hyn yn darparu derbyniad cyfalaf untro o werthiant y tir, yn ogystal ag arbedion refeniw parhaus yn sgil cau adeilad. Nododd mai'r gyllideb gyfalaf ddangosol oedd ei hangen i ailfodelu'r rhan honno o'r Swyddfeydd Dinesig a effeithir yw £275,000, sy'n cynnwys creu man patio ar gyfer lluniau priodas. Disgwylir i'r derbyniad cyfalaf rhagweledig, a nodwyd yn yr adroddiad prisio drafft, fod yn llawer mwy na chost y gwaith.

Nododd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £2.6 miliwn i'r cyngor er mwyn creu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws, Bro Ogwr, tref Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, gyda'r pedwar prosiect yn costio £650,000 yr un.

Wedi hyn, dywedodd wrth y cyngor fod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig yn cynnwys nifer o addasiadau eraill a oedd yn adlewyrchu cymeradwyaethau ariannu allanol newydd a newidiadau i broffiliau gwariant dros flynyddoedd ariannol, a oedd yn dangos rhaglen ddiwygiedig o £211.185 miliwn. Daw £138.408 miliwn o hwn o adnoddau'r cyngor, gan gynnwys Cyllid Cyfalaf cyffredinol gan Lywodraeth Cymru, a daw £72.777 miliwn o adnoddau allanol.

Cyfeiriodd aelodau at y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig a oedd wedi ei hatodi yn Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd hefyd yn cynnwys nifer o addasiadau eraill yr oedd eu hangen i adlewyrchu'r cymeradwyaethau ariannu allanol newydd a newidiadau i broffiliau gwariant dros flynyddoedd ariannol. Roedd hyn yn dangos rhaglen ddiwygiedig o £211.185 miliwn i gyd. Daw £138.408 miliwn o hwn o adnoddau'r cyngor, gan gynnwys Cyllid Cyfalaf cyffredinol gan Lywodraeth Cymru, a daw £72.777 miliwn o adnoddau allanol.

Yn olaf, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro at oblygiadau ariannol yr adroddiad, gan nodi y bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a ryddheir o ganlyniad i gynlluniau'n cael eu tynnu o'r Rhaglen Gyfalaf yn cael eu hadleoli i gynlluniau eraill sydd eisoes wedi eu cynnwys yn y rhaglen, ond cânt eu hariannu gyda benthyciadau allanol er mwyn lleihau costau benthyca posibl, gan felly leihau'r pwysau ar y Gyllideb Refeniw.

Roedd aelod yn poeni fod rhai o'r cynlluniau hynny a restrwyd yn yr adroddiad yn gofyn am fwy o gyllid nag y cynigiwyd yn wreiddiol, yn dilyn gwaith dichonoldeb a chynllunio manwl a oedd wedi ei wneud ar ôl hyn. Oherwydd hyn, cafodd diwygiad ei wneud i argymhelliad yr adroddiad, a eiliwyd yn briodol, sef bod yr adroddiad yn cael ei ohirio a'i atgyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried ymhellach. Argymhellwyd ymhellach hefyd y dylid bwrw pleidlais wedi ei chofnodi ar y diwygiad hwn, a chefnogwyd hyn yn unfrydol

Felly, cytunodd yr aelodau i bleidleisio'n electronig ar b'un a ddylid bwrw pleidlais wedi'i chofnodi ar y diwygiad uchod neu beidio. Dyma oedd canlyniad y bleidlais:-

| O blaid (pleidlais wedi ei chofnodi) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 45 | 1 | 0 |

Cafodd pleidlais wedi ei chofnodi ei bwrw wedi hyn ar y diwygiad, h.y. i ohirio'r adroddiad ac, yn ei dro, ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried.

Dyma oedd canlyniad y bleidlais a gofnodwyd:-

| O blaid (y diwygiad) | Yn erbyn | Ymatal | Dim Pleidlais |
|---|---|---|---|
| 21 | 26 | 0 | 1 |

| **Gohirio'r adroddiad ac yn ei dro, cyfeiriwch hi at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried (Cynnig)** | |
|---|---|
| Cynghorydd Stuart Baldwin | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Tom Beedle | O Blaid |
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Nicole Burnett | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Mike Clarke | O Blaid |
| Cynghorydd Norah Clarke | O Blaid |
| Cynghorydd Richard Collins | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Huw David | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Paul Davies | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Pam Davies | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Sorrel Dendy | O Blaid |
| Cynghorydd Keith Edwards | O Blaid |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Tom Giffard | O Blaid |
| Cynghorydd Richard Granville | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Cheryl Green | O Blaid |
| Cynghorydd Altaf Hussain | O Blaid |
| Cynghorydd Malcolm James | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Brian Jones | O Blaid |
| Cynghorydd Martyn Jones | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Mike Kearn | Yn Erbyn |
| Cynghorydd David Lewis | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Janice Lewis | Yn Erbyn |
| Cynghorydd John McCarthy | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Ross Penhale-Thomas | O Blaid |
| Cynghorydd Aniel Pucella | O Blaid |
| Cynghorydd Kay Rowlands | O Blaid |
| Cynghorydd Rod Shaw | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Charles Smith | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Stephen Smith | Yn Erbyn |
| Cynghorydd John Spanswick | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Gary Thomas | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Tim Thomas | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE | Dim Pleidlais |
| Cynghorydd Elaine Venables | O Blaid |
| Cynghorydd Sadie Vidal | O Blaid |
| Cynghorydd Matthew Voisey | O Blaid |
| Cynghorydd Lyn Walters | O Blaid |
| Cynghorydd Ken Watts | O Blaid |
| Cynghorydd Carolyn Webster | O Blaid |
| Cynghorydd David White | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Philip White | Yn Erbyn |
| Cynghorydd Alex Williams | O Blaid |
| Cynghorydd Amanda Williams | O Blaid |
| Cynghorydd Hywel Williams | Yn Erbyn |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julia Williams | O Blaid |
| Cynghorydd Richard Young | Yn Erbyn |
| **Wedi'i wrthod** | |

Felly, methodd y diwygiad.

Cynhaliwyd ail bleidlais electronig i bennu a ddylid trafod yr adroddiad ymhellach neu beidio, a dyma oedd y canlyniad:-

| O blaid (trafod ymhellach) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 22 | 10 | 1 |

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr adeiladau yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod angen gwelliannau i adeiladau presennol yr ysgol. Roedd hwn wedi ei asesu fel adeilad categori 'C' ac roedd angen cyllid er mwyn ehangu maint y dosbarthiadau cyfredol, ac roedd rhai o'r rhain hefyd yn cynnwys mannau hongian cotiau oherwydd y diffyg lle yn gyffredinol mewn mannau eraill o'r ysgol. Ychwanegodd fod tair ystafell ddosbarth symudol yn yr ysgol a oedd mewn cyflwr gwael. Roedd hyn yn cyfrif am 50% o le cyffredinol i ddosbarthiadau yn yr ysgol, a oedd yn annigonol at ddibenion dysgu ac addysgu. Ychwanegodd nad oedd y dyraniad cyllid cychwynnol yn ystyried gwaith mecanyddol a pheirianyddol sy'n cael ei wneud yn yr ysgol bresennol, na darparu teledu cylch cyfyng.

O ran adleoli Swyddfa'r Cofrestrydd, pan fyddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach, credai aelod y dylid hefyd ystyried darparu maes parcio digonol gerllaw er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gryfhau'r gwasanaeth i gwsmeriaid.

Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.11 yr adroddiad, a chyllid sydd wedi ei ddyrannu i brosiectau sy'n mynd ati'n benodol i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg, a holodd am ragor o eglurhad ynghylch llwybrau ariannu ar gyfer hyn.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd unrhyw gost cyfalaf i'r cyngor o ran yr uchod, oherwydd bod hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai cost refeniw, ac roedd Grŵp Llywio wedi ei sefydlu i edrych ar raddfa hyn wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: Bod y cyngor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

262. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn gweithrediad prawf lles y cyhoedd wrth ystyried yr eitem hon, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ei bod yn cael ei hystyried yn breifat, a gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth iddynt sydd wedi'i heithrio o'r natur a nodwyd uchod.

263. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

264. PENODI PRIF WEITHREDWR DROS DRO

Daeth y cyfarfod i ben am 18:05